

Tabl Rheoli'r Ddogfen

Teitl y Ddogfen:	Polisi Ffioedd Gwybodaeth
Awdur(on) (enw, teitl swydd ac Is-adran):	Ruth Robertson, Dirprwy Gyfarwyddwr, GOVRN
Rhif y Fersiwn:	1.1
Statws y Ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad Cymeradwyo:	2007
Cymeradwywyd Gan:	
Dyddiad Dod i Rym:	29 Mehefin 2015
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	29 Mehefin 2016
Fersiwn y mae'n ei Disodli:	F1.0

Hanes y Ddogfen

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau ar Ddiwygiadau
Fersiwn 1.0	2007	Ruth Robertson	
Fersiwn 1.1	Mehefin 2015	Matt Cooper – Rheolwr Hawliau Gwybodaeth	Mân ddiweddariadau i adlewyrchu newidiadau yn y rôl.

POLISI FFIOEDD GWYBODAETH

1. DIBEN

Diben y polisi hwn yw egluro'r darpariaethau deddfwriaethol ar godi ffioedd, dyrannu cyfrifoldebau a dyletswyddau'n fewnol a darparu fframwaith cyhoeddus i'r ffioedd sy'n debygol o godi.

2. CWMPAS

Mae'n bosibl y bydd y Brifysgol yn codi ffioedd mewn ymateb i geisiadau am wybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

3. CYSYLLTIAD Â PHOLISIÂU SY'N BODOLI'N BAROD

Mae'r polisi hwn yn rhan o'r Fframwaith Rheoli Diogelwch Gwybodaeth. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth.

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r canlynol:

- Polisi Mynediad y Cyhoedd at Wybodaeth
- Polisi Diogelu Data
- Polisi Rheoli Cofnodion

4 DATGANIAD POLISI

4.1 Deddf Diogelu Data 1998

O dan y Ddeddf Diogelu Data, £10 yw'r ffi safonol fesul cais, ac nid yw hyn yn gysylltiedig â chymhlethdod y cais. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Brifysgol bolisi 'ffeil agored' mewn perthynas â ffeiliau personol staff neu fyfyrwyr. Dylai pob cais gan unigolion i gael mynediad at eu ffeil(iau) personol at eu dibenion eu hunain gael ei sianelu, fel arfer, drwy weithdrefn ffurfiol Cais Unigolyn am Wybodaeth. Bydd yn rhaid talu'r ffi safonol oni bai bod y Swyddog Diogelu Data yn penderfynu bod yr amgylchiadau'n cyfiawnhau hepgor y ffi.

4.2 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

(i) O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gallai'r Brifysgol godi ffi am gostau sy'n gysylltiedig â chwilio am wybodaeth, a chael gafael ar wybodaeth nad yw yn y Cynllun Cyhoeddi, lle tybir bod hyn y tu hwnt i'r trothwy priodol. Caiff y trothwy priodol ei ddiffinio yn y rheoliadau ffioedd ategol, a £450 ydyw ar hyn o bryd, neu 18 awr yn seiliedig ar gyfradd sefydlog o £25 yr awr fesul aelod o staff. Lle amcangyfrifir y bydd yn cymryd mwy na 18 awr i ganfod a/neu gael gafael ar yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, mae'n bosibl y gofynnir i'r Ysgol/Cyfarwyddiaeth sy'n rhoi'r amcangyfrif roi tystiolaeth neu ddadansoddiad manwl o'r costau chwilio i'r Swyddog Rhyddid Gwybodaeth.

(ii) Lle mae cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn mynd y tu hwnt i'r trothwy priodol, bydd y Swyddog Rhyddid Gwybodaeth naill ai'n cyhoeddi hysbysiad ffioedd a/neu, ar ôl ymgynghori â'r Ysgol/Cyfarwyddiaeth berthnasol, yn gwrthod y cais o

dan Adran 12, ac yn rhoi cyngor i'r sawl a wnaeth y cais am beth sydd ar gael o dan y trothwy.

(iii) Ni all y Brifysgol godi ffi am ryddhau gwybodaeth sydd yn ei Chynllun Cyhoeddi oni bai bod y Cynllun Cyhoeddi yn nodi bod ffi yn gysylltiedig â'r deunydd. Rhaid i wybodaeth y mae'r Brifysgol yn bwriadu iddi fod ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn, gael ei chynnwys yn y Cynllun Cyhoeddi. Gall yr Ysgol/Cyfarwyddiaeth sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r ddogfen gadw unrhyw ffioedd a godir yn y modd hwn.

4.3 Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

O dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, gallai'r Brifysgol mewn theori godi ffi resymol am ddarparu gwybodaeth ar gais, heb unrhyw drothwy. Fodd bynnag, bydd y gyfradd sefydlog sy'n berthnasol i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei defnyddio er mwyn sicrhau tryloywder a hwylustod.

4.4 Alldaliadau

(i) Mae'n bosibl na fydd y Brifysgol yn codi am gostau llungopïo, fformatio, postio ac ati (alldaliadau) mewn cysylltiad â Cheisiadau Unigolyn am Wybodaeth o dan y Ddeddf Diogelu Data, ond nid yw'n ofynnol iddi gydymffurfio â chais o'r fath lle mae'r gweithgareddau hyn yn golygu 'ymdrech ormodol'. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn cynghori ynglŷn â beth sy'n ymdrech ormodol mewn unrhyw achos penodol.

(ii) Mewn perthynas â cheisiadau a wneir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, gallai'r Brifysgol godi ffi resymol am alldaliadau. Er mwyn hwylustod gweinyddol a bod yn gost-efeithiol, ni fydd y Brifysgol yn codi am alldaliadau lle amcangyfrifir eu bod o dan £10.

4.5 Crynodeb o'r Gyfundrefn Ffioedd

Mae'r polisi statudol mewn print italig

Mae polisi Prifysgol Caerdydd mewn print trwm

	Rhyddid Gwybodaeth	Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol	Diogelu Data
Ffi Safonol	<i>Amh.</i>	<i>Amh.</i>	<i>£10</i>
Ffi trothwy ar gyfer chwilio/cael gafael ar wybodaeth:	<i>>£450</i>	<i>Dim</i> >£450	<i>Dim</i>
Cyfradd fesul awr am amcangyfrif costau chwilio/cael gafael ar wybodaeth	<i>£25</i>	<i>Rhesymol</i> £25	<i>Amh.</i>
Ffi trothwy alldaliadau	<i>£0.01</i> £10	<i>£0.01</i> £10	<i>Ymdrech ormodol</i>
Alldaliadau – cyfradd	<i>Rhesymol</i>	<i>Rhesymol</i>	<i>Amh.</i>

llungopïo/sganio	Yn unol â ffioedd Gwasanaethau Graffeg cyfredol	Yn unol â ffioedd Gwasanaethau Graffeg cyfredol	
-------------------------	--	--	--

5 CYFRIFOLDEBAU

- 5.1 Mae'n ofynnol i'r Brifysgol sefydlu polisi ffioedd mewn perthynas â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, a chyhoeddi'r polisi hwn.
- 5.2 Yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yw'r Uwch Swyddog sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a chasglu unrhyw ffioedd cysylltiedig.
- 5.3 Yn unol â'r Polisi Diogelu Data a Pholisi Mynediad y Cyhoedd at Wybodaeth, bydd yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yn enwebu Swyddog Diogelu Data a Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a fydd yn gyfrifol am weinyddu'r ffioedd perthnasol.

6 CYDYMFFURFIO

- 6.1 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu gwynion sy'n deillio o'r polisi hwn at y Swyddog Diogelu Data i gychwyn.

7 DIFFINIADAU ALLWEDDOL

Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth

Fel y diffinnir ym [Mholisi Diogelu Gwybodaeth y Brifysgol](#)

Rheoliadau Ffioedd

Fel y disgrifir yn y Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Ffioedd a Throthwy Priodol)

<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2004/3244/contents/made>